



---

Arweiniad:

## Cau neu drosglwyddo cartrefi gofal

---

Mae nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru wrthi'n gwneud penderfyniadau am gartrefi gofal yn eu hardal. Mae'n bwysig bod penderfyniadau fel y rhain, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau pobl hŷn a'u cartrefi, yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n gosod pobl hŷn wrth galon y broses benderfynu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau statudol ynghylch cau cartrefi gofal lle ceir pryderon am hyfywedd ariannol neu am gamdriniaeth, ond does dim canllawiau sy'n sôn yn benodol am arferion da wrth gau cartrefi gofal o ganlyniad i benderfyniad polisi.

Amlinelli'r isod disgwyliadau'r Comisiynydd o Awdurdodau Lleol pan maent yn ystyried y posibilrwydd o gau neu drosglwyddo cartrefi gofal.

---

### Sicrhau hawliau dynol y preswylwyr

Rhaid i'r Cynghorau weithredu mewn modd sy'n diogelu hawliau dynol y rhai y maen nhw'n eu gwasanaethau. Mae gan bobl hŷn mewn cartrefi gofal hawl i gael eu trin yn deg ac i leisio'u barn. Y cartref gofal yw eu hunig gartref ac ni ddylai hynny gael ei anghofio. Dylai eu hurddas, eu credoau, eu hanghenion a'u preifatrwydd gael eu parchu, yn ogystal â'u hawl i wneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol am eu gofal a'u lles.

### Ymgynghori ac ymgysylltu ystyrlon

Dylid ymgynghori â phobl hŷn a'u teuluoedd a hynny mewn modd ystyrlon ar adeg pan fo'r cynigion yn dal wrthi'n cael eu ffurfio. Dylai'r ymgynghoriad roi digon o wybodaeth, mewn iaith glir ac mewn amryw o fformatau, i ganiatáu i bobl gael yr wybodaeth lawn. Dylid rhoi digon o amser i bwysu a mesur yr wybodaeth ac ymateb iddi. Dylai ymatebion pobl hŷn a'u teuluoedd gael eu dadansoddi yn ofalus ac â meddwl agored gan y Cyngor, a dylid trefnu bod y canlyniadau ar gael yn eang. Dylai'r Cyngor gyhoeddi'r farn sydd wedi'i mynegi a'r rhesymau am y penderfyniadau y mae wedi'u cymryd yn y pen

draw. Dylai'r ymatebion gael eu bwydo hefyd i mewn i broses barhaus o asesu effeithiau (gweler isod).

Rhaid i wahanol gyfnodau'r broses ymgynghori gael eu hegluro i bobl hŷn a'u teuluoedd a rhaid sicrhau bod pwynt cysylltu allweddol ar gael i ateb unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad.

## **Darparu eiriolaeth**

Ni fydd rhai pobl hŷn yn gallu mynegi eu dymuniadau neu eu pryderon eu hunain heb gymorth eiriolydd. Pan fo person hŷn heb alluedd ac nad oes perthynas neu gyfaill i'w gynrychioli, mae'n rhaid penodi Eiriolydd Annibynnol Galluedd Meddyliol gan ei bod yn ofyniad cyfreithiol bod un yn cael ei benodi pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud a allai arwain at symud y person hŷn i gartref gofal gwahanol.

Yn y cyfnodau cynharaf, dylid sicrhau bod y preswylwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael iddyn nhw; hyd yn oed os oes gan berson alluedd, mae'n bosibl y bydd yn teimlo bod arno angen cymorth person annibynnol i fynegi ei ddymuniadau neu ei bryderon. Gall y sector gwirfoddol chwarae rhan allweddol wrth roi cymorth o'r fath a dylai gael ei ddefnyddio i wneud hynny.

Nid yw gweithwyr cymdeithasol a staff cartrefi gofal yn eiriolwyr annibynnol.

## **Asesu effeithiau yn barhaus**

Mae'r dyletswyddau penodol o dan ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynghorau asesu effaith polisiâu a pholisiâu arfaethedig ar y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig. Wrth ystyried cau cartrefi gofal, dylai'r Cynghorau asesu effaith yr opsiynau y maen nhw'n eu cynnig yn y ddogfen ymgynghori a chyhoeddi'r canfyddiadau fel rhan o'r ddogfen honno. Nid unwaith yn unig y dylai'r broses asesu effaith gael ei chynnal – dylai gael ei hailadrodd lle bynnag y cynigir newid cyfeiriad neu y ceir newid yn yr amgylchiadau.

Dylai'r Cynghorau ystyried y canfyddiadau yn drylwyr a gweithredu arnyn nhw i sicrhau nad oes neb sydd â nodwedd warchoddedig yn cael ei drin yn annheg o ganlyniad i bolisi neu benderfyniad.



# Older People's Commissioner for Wales Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

## Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)

Gwefan: [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)

Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)